YSGOL PORTH Y FELIN

DATGANIAD POLISI: DISGYBLAETH

Mae y polisi hwn yn seiliedig ar yr egwyddor o ddisgyblaeth gadarn. Mae'r ysgol yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill.

Mae cynnal safonau uchel o ymddygiad yn gyfrifoldeb pawb sy'n gweithio yn yr ysgol. Trwy gyd-weithio a chynnal yr un safonau gallwn greu awyrgylch ddymunol a hapus. Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro / athrawes ddosbarth, ond ceisia'r staff cyfan ofalu am les yr holl ddisgyblion.

NOD

Ein nod yw cynnal awyrgylch hapus, cartrefol a diogel trwy feithrin hunan-ddisgyblaeth yn y disgyblion a pharch tuag at eu hunain ac at eraill.

AMCANION

1. Sicrhau ymddygiad priodol a rhesymol bob amser.
2. Meithrin hunan-ddisgyblaeth.
3. Meithrin cyd-weithrediad rhwng y rhieni a'r ysgol.
4. Cynnal rheolau rhesymol a theg.

GWEITHREDU

Arddangosir 'Rheolau Aur' yr ysgol yn y dosbarthiadau, y coridorau a'r neuadd. Bydd Côd Ymddygiad yn cael ei arddangos ym mhob dosbarth. Yn ychwanegol ceir rheolau dosbarth a luniwyd ar y cyd gan y plant a'i hathrawon. Atgoffir plant o'r rheolau hyn yn gyson. Cynhelir system 'Goleuadau traffig' pan fo camymddwyn yn unol â'r drefn yn y Cod Ymddygiad y dosbarth. O bryd i'w gilydd bydd angen defnyddio dulliau gwahanol er mwyn targedu ymddygiad amhriodol. Bydd disgyblion gyda anghenion penodol angen trefniadau rheoli ymddygiad gwahanol.

Addysgir rheolau'r ysgol yn uniongyrchol. Atgyfnerthir y rheolau drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n gwobrwyo disgyblion sy'n dilyn y rheolau, e.e. Amser aur, sticeri, tystysgrifau, anfon negeseuon positif adref. Ceisir cael plant i newid ymddygiad sy'n annerbyniol. Y duedd yw i blant sy'n camymddwyn gael ymateb negyddol a llawer o sylw oherwydd eu hymddygiad gwael. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn peri iddynt newid eu hymddygiad. Gan fod plant fel rheol yn ymateb yn fwy cadarnhaol i ganmoliaeth nag i gerydd manteisiwn ar bob cyfle i ganmol a chymeradwyo yr hyn sy'n dda ac i gynnal disgwyliadau positif. Mae'n bwysig i strwythuro targedau ymddygiad / gwaith i sicrhau fod plant yn profi llwyddiant yn gyson.

TREFN DISGYBLU

Mae gan yr ysgol God Ymddygiad a gytunwyd gyda'r Cyngor Ysgol, y staff, y Llywodraethwyr ac hefyd anfonwyd copi i rieni i geisio eu barn. Ceisir cymorth a chyd-weithrediad rhieni pan mae problem ymddygiad. Mae'r athrawon yn ymdrin ag achosion o gamymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad. Os nad oes gwelliant yn yr ymddygiad yna gofynnir am gymorth o'r tu allan e.e. Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad Conwy, Athrawes Ymgynnwys A.A.Ll., Seicolegydd Addysg. Bydd cofnod o gamymddwyn yn cael ei gadw yn y ffeil gofnodi (glas) er mwyn monitro ymddygiad yn hawdd. Mewn achosion o gamymddygiad difrifol mae gan y Pennaeth (neu'r Dirprwy Bennaeth yn ystod absenoldeb y Pennaeth) hawl i wahardd plentyn o'r ysgol. Gall hyn fod am gyfnod penodol neu yn barhaol. Bydd y Pennaeth yn hysbysu rhieni y disgybl yn ffurfiol, y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Addysg Lleol o'r gwaharddiad yn unol â chanllawiau'r Cynulliad.

YSGOL PORTH Y FEIN BEHAVIOUR CODE– Traffic light system

Step	Colour	Break Rule	Outcome	Rewards
0	Green		Pupil's name on the green light.	Receive golden time
1	Green	The first time	Warning. Time out if appropriate. Pupil to apologise.	Receive golden time
2	Black	The second time	Formal verbal warning – Pupil to apologise KS2 - Child to lose a DOJO point Pupil to work on their own, if appropriate and have time to think No more misbehaviour = F PH – Return to green per session am/pm KS2 – Return to green at the end of the day.	Receive golden time
3	Orange	The third time	Pupil's name will move to the Orange light. Remind the pupil of the outcome of any further misconduct. Thinking time. FPh – Thinking chair, loose part of playtime. Yr 2 - 6 – one penalty task set by the teacher. There will be an opportunity for the children that improve their behaviour to return to green during the day.	Teacher's decision.
4	Red	The fourth time	Pupil's name will move to the Red light. Send to Headteacher /deputy head teacher to discuss the situation. **Update the behaviour record.** FPh – Loss of privileges, playtime, golden time. Yr. 2-6 penalty tasks set by the teacher. Loss of privileges (Playtime, trips etc.) **Parent called in at the end of the day / Phone call home.** **Temporary or permanent exclusion from school if misconduct is serious**	No golden time Loss of privileges
5	Red	Red for the second time within the ½ term	Call the parents into school. Refer the pupil to external agencies if needed. Individual behaviour plan. Behaviour chart. Pastoral support plan. **Internal exclusion, temporary or permanent exclusion from school if misconduct is serious**	No golden time. Loss of privileges.
6	Red	Unacceptable behaviour continues	**Internal exclusion, part-time or permanent exclusion. Alert the Board of Governors.**	

- F Ph = Foundation Phase, KS2 = Key Stage 2
- All children on red light return back to green at the end of the day
- **If there is serious misconduct, the pupil will move immediately to step 4. (e.g. Assaulting a pupil or adult, swearing, stealing, damaging property etc)**